

**ballet**  
**cymru**  
engagement  
ymgysylltu

Pecyn Cais 2024  
Rhaglen Cymdeithion  
Ballet Cymru



## Ballet Cymru

Mae Ballet Cymru yn gwmni ballet teithiol rhyngwladol ar gyfer Cymru, sy'n ymrwymedig i gynhwysiant ac arloesedd mewn dawns a ballet clasurol, ac i'r safon uchaf o gydweithio. Mae ei raglen mynediad ac allgymorth helaeth yn ymrwymedig i chwalu'r rhwystrau sy'n atal mynediad at y celfyddydau.

Mae Ballet Cymru wedi'i leoli yn Nhŷ-du, Casnewydd, ac mae wedi bod yn cynnal cyrsiau dawns dwys yng Nghymru ers dros ugain mlynedd.

## Rhaglen Cymdeithion Ballet Cymru

Mae Rhaglen Cymdeithion Ballet Cymru wedi'i chynllunio i ategu hyfforddiant dawns presennol y myfyrwyr, a'i nod yw rhoi cyfle, dealltwriaeth a chipolwg i ddawnswyr ballet ifanc a thalentog ar yr hyn y gallai bywyd dawnsiwr proffesiynol ei olygu, a hynny trwy berthynas waith agosach a mwy rheolaidd â Ballet Cymru. Mae Ballet Cymru yn gwmni cynhwysol sy'n croesawu ceisiadau gan ddawnswyr ifanc ag anabledau, ynghyd â'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Cynhelir y rhaglen yn fisol ar ddydd Sul rhwng mis Medi 2024 a mis Awst 2025, a hynny yn stiwdio ddawns Ballet Cymru yng Nghasnewydd. Mae'n agored i ddawnswyr 9 oed a hŷn\*. Mae'n gweithio ar dair lefel:

1. Cymdeithion Iau: 9-11 oed
2. Cymdeithion Canol: 11-13 oed
3. Cymdeithion Hŷn: 14 oed a hŷn

\*Oed ar 31 Awst 2024

Mae sesiynau misol Cymdeithion Ballet Cymru yn para rhwng 2 a 3.5 awr, yn dibynnu ar lefel y Cydymaith. Bydd Cymdeithion yn cael cyfle i weithio gyda dawnswyr proffesiynol, Cyfarwyddwyr Artistig ac athrawon gwadd Ballet Cymru. Bydd sesiynau'r Cymdeithion yn cynnwys dosbarthiadau techneg *ballet*, gwaith *pointe*/hyfforddiant cryfder (lle bo hynny'n briodol), *repertoire* a hyfforddiant dawn/symudiad arall. Yn ystod y cwrs, bydd y Cymdeithion hefyd yn gwella eu sgiliau coreograffig trwy gwblhau tasgau creadigol ac archwiliol.

Mae'r Cwrs Dwys i Gymdeithion hefyd yn cael ei gynnwys yn y rhaglen, sef cwrs haf wythnos o hyd yn stiwdios Ballet Cymru yng Nghasnewydd, a fydd yn diweddu gyda pherfformiad i arddangos gwaith y Cymdeithion ar hyd y flwyddyn academiaidd, ynghyd â'r coreograffi a ddatblygwyd yn ystod yr wythnos ddwys.



## Dyddiadau

### Dyddiadau ar gyfer Cymdeithion Iau:

|          |          |          |          |
|----------|----------|----------|----------|
| 08/09/24 | 08/12/24 | 09/03/25 | 08/06/25 |
| 13/10/24 | 12/01/25 | 06/04/25 | 06/07/25 |
| 10/11/24 | 09/02/25 | 11/05/25 |          |

Wythnos Ddwys Opsiynol yr Haf: **Dydd Llun 28 Gorff.-Dydd Gwener 1 Awst 2025**  
Dyddiad y perfformiad: **Dydd Sadwrn 2 Awst 2025, Theatr Glan yr Afon**

### Dyddiadau ar gyfer Cymdeithion Canolig:

|          |          |          |          |
|----------|----------|----------|----------|
| 08/09/24 | 08/12/24 | 09/03/25 | 08/06/25 |
| 13/10/24 | 12/01/25 | 06/04/25 | 06/07/25 |
| 10/11/24 | 09/02/25 | 11/05/25 |          |

Wythnos Ddwys yr Haf: **Dydd Llun 28 Gorff.-Dydd Gwener 1 Awst 2025**  
Dyddiad y perfformiad: **Dydd Sadwrn 2 Awst 2025, Theatr Glan yr Afon**

### Dyddiadau ar gyfer Cymdeithion Hŷn:

|          |          |          |          |
|----------|----------|----------|----------|
| 15/09/24 | 15/12/24 | 16/03/25 | 15/06/25 |
| 20/10/24 | 29/01/25 | 13/04/25 | 13/07/25 |
| 17/11/24 | 16/02/25 | 18/05/25 |          |

Wythnos Ddwys yr Haf: **Dydd Llun 21-Gwener 25 Gorffennaf 2025**  
Dyddiad y perfformiad: **Dydd Sadwrn 26 Gorffennaf 2025, Theatr Glan yr Afon**

## Ffioedd

**Y gost ar gyfer Cymdeithion Canolig: £400\*** (mae hyn yn cynnwys sesiynau misol, Cwrs Dwys i Gymdeithion, perfformiad, crys T a llyfr nodiadau Cymdeithion)

**Y gost ar gyfer Cymdeithion Hŷn: £400\*** (mae hyn yn cynnwys sesiynau misol, Cwrs Dwys i Gymdeithion, perfformiad, crys T a llyfr nodiadau Cymdeithion)

**Y gost ar gyfer Cymdeithion Iau: £250\*** (mae hyn yn cynnwys sesiynau misol, crys T a llyfr nodiadau Cymdeithion. Bydd cymryd rhan yn y Cwrs Dwys opsiynol i Gymdeithion yn golygu cost ychwanegol o £75)

\* Os yw cost y cwrs yn rhwystr i chi a'ch teulu, peidiwch â gadael i hyn eich atal rhag gwneud cais. Os cewch eich derbyn, gallwn gynnig opsiynau talu gwahanol a/neu ysgoloriaeth, yn ôl disgrisiwn Ballet Cymru. Mae ceisiadau am fwrariaethau ar gael ar gais os bydd eich clyweliad yn llwyddiannus.

## Dyddiadau'r Clyweliadau

Cynhelir y clyweliadau ar gyfer Rhaglen Cymdeithion Ballet Cymru yn stiwdio Ballet Cymru yn Nhŷ-du, Casnewydd, ddydd Sadwrn 20 a dydd Sul 21 Gorffennaf 2024. Ni fydd yna gost/ffi ar gyfer y clyweliad. Dyrennir lleoedd ar y rhaglen gan Swyddog y Rhaglen Cymdeithion a thîm Ballet Cymru, a hynny'n seiliedig ar allu, cryfder a photensial.

## Y Broses Ymgeisio A'r Dyddiad Cau

Rhaid cyflwyno'r ceisiadau erbyn dydd Gwener 27 Mehefin 2024 fan bellaf. I helpu i leihau ein hól troed carbon, ffefrir ceisiadau digidol, ond gallwn dderbyn ceisiadau trwy'r post os bydd angen. Derbynnir ceisiadau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais ganlynol a'i dychwelyd ynghyd â llun cyfredol o'ch wyneb a ffotograff *ballet* o'ch dewis. Byddwch yn cael gwybod beth yw dyddiad/amser eich clyweliad trwy e-bost.

\*Nodwch, os byddwch yn llwyddo yn eich clyweliad i sicrhau lle ar ein Rhaglen Cymdeithion, efallai y cynigir lle i chi ar gwrs lefel wahanol i'r hyn y bu i chi geisio amdano yn y lle cyntaf. Gallai hyn fod oherwydd bod panel y clyweliad o'r farn y byddai hyn yn gweddu'n well i'r ymgeisydd, a/neu yn ddibynnol ar safon y clyweliadau a welwn.

I LENWI'R FFURFLEN GAIS AR-LEIN, CLICIWCH [YMA](#)

